**Rhif: WG47806**

Llywodraeth Cymru
# Adroddiad Canlyniad Ymgynghoriad

# Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio teg a Chymru wyrddach

Cynigion ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd

Mehefin 2023

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN 978-1-83504-190-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Adran Newid yn Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Ynni
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: FuelPovertyandEnergyEfficieny@gov.wales

### Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dogfennau ymgynghori

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3

Allbynnau'r Ymgynghoriad ..... 5

Gweithdai rhithwir ..... 5

Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 28 Chwefror ..... 5

Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 1 Mawrth ..... 6

Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 3 Mawrth – ffocws ar dai gwledig ..... 7

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein ..... 7

Beth ddywedodd pobl wrthym ..... 8

**Cwestiwn 1 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gydbwyso'r angen i leddfu tlodi tanwydd a chreu cenedl sy'n gyfiawn yn gymdeithasol â'r angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, neu a ddylai un o'r amcanion hyn gael blaenoriaeth yn y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd?"** ..... 8

**Cwestiwn 2 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw'r bwlch yn y ddarpariaeth y credwch y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf ei lenwi er mwyn sicrhau mwy o fudd i Gymru?"** ..... 9

**Cwestiwn 3 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Yn 'Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod', amcangyfrifodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fuddsoddiad o £14.75 biliwn dros y degawd nesaf i ddileu tlodi tanwydd a chyflawni ein huchelgeisiau sero net. Pa awgrymiadau sydd gennych chi o ble y dylai'r cyllid ar gyfer y lefel hon o fuddsoddiad ddod?** ..... 10

**Cwestiwn 4 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn brif ffocws y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf?"** ..... 11

**Cwestiwn 5 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Ar ba lefel y dylid gosod trothwy(on) incwm a chynilion aelwydydd, y byddai aelwydydd drosto/drostynt yn cael eu heithrio rhag mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gyflenwir heb unrhyw gost i ddeiliad y tŷ?"** ..... 11

**Cwestiwn 6 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Cartrefi Clyd i gynnwys aelwydydd eraill yn y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat?"** ..... 13

**Cwestiwn 7 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "[Pe bai'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei hymestyn i gynnwys aelwydydd eraill,] a oes gennych farn ar sut y gellid ariannu hyn?"** ..... 13

**Cwestiwn 8 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Os yw aelwydydd eraill wedi'u cynnwys yn y cymhwystra i gael cymorth drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddylid blaenoriaethu cefnogaeth, er enghraifft yn gyfyngedig i gartrefi sydd â sgôr EPC is fel sgôr EPC o D neu waeth?"** ..... 14

**Cwestiwn 9 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw'r ffyrdd y gellir helpu aelwydydd incwm isel i wneud yn iawn am gost biliau ynni uwch yn y tymor byr os yw mesurau gwresogi carbon isel, wrth eu gosod, yn cynyddu biliau?** ..... 14

**Cwestiwn 10 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ddylid cynnwys neu eithrio'r canlynol yn iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan ystyried arbedion**

**carbon, tlodi tanwydd, materion ansawdd aer lleol a pharodrwydd y farchnad?”** ....... 15
**Cwestiwn 11 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “Beth yw eich barn am barhau â chap ariannol fesul aelwyd, gan nodi y bydd cap is yn caniatáu i fwy o aelwydydd gael cefnogaeth, ond o werth is?”** ....... 18
**Cwestiwn 12 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “A oes gennych farn ar ganiatáu ceisiadau lluosog i bob aelwyd [dros oes y rhaglen]?”** ....... 19
**Cwestiwn 13 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “Beth yw eich barn am y fethodoleg a'r targedau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?”** ....... 20
**Cwestiwn 14 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “A ddylai iteriad nesaf y gwasanaethau cyngor ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni domestig yn unig?”** ....... 20
**Cwestiwn 15 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “Sut y gallai gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cyngor eraill sydd wedi’u cynllunio i sicrhau’r incwm mwyaf posibl a mynd i’r afael â thlodi?** ....... 21
**Cwestiwn 16 – Gofynnwyd i ymatebwyr rannu eu barn ar ddarparu gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni ac a ddylai'r rhain fod yn annibynnol ar sefydliadau a benodwyd i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i ddeiliaid tai?** ....... 21
**Cwestiwn 17 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “Pa safonau y dylid eu defnyddio ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni?”** ....... 22
**Cwestiwn 18 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “Sut gall y Rhaglen Cartrefi Clyd gefnogi datblygiad sgiliau a swyddi yn y sectorau carbon isel ac ôl-osod tai yn well?”** ....... 22
**Cwestiwn 19 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “A ydych chi'n credu bod angen nodi’r Rhaglen Cartrefi Clyd mewn Rheoliadau manwl, neu a ellir ei chefnogi’n syml gan ganllawiau cynllun a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru?”** ....... 23
Y camau nesaf ....... 24

## Cyflwyniad

Ers lansio'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn 2010, mae mwy na £420 miliwn wedi'i fuddsoddi i sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni cartref i dros 73,100 o aelwydydd incwm isel ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arbed, ar gyfartaledd, dros £300 y flwyddyn i dalwyr biliau ar eu biliau ynni domestig.

Mae'r buddsoddiad wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn nifer y cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, drwy wella effeithlonrwydd ynni tua 5,000 o aelwydydd y flwyddyn a rhoi cyngor i 16,000 o aelwydydd. Fodd bynnag, mae'r argyfwng ynni a chostau byw wedi arwain at bwysau ariannol ychwanegol ar aelwydydd, ac mae mwy o aelwydydd bellach yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau tanwydd.

Yn 2018, gwnaethom amcangyfrif bod 12% o'r holl aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Yn sgil y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni domestig ym mis Hydref 2021, cododd hyn i 14%. Cyhoeddwyd dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon wedi'u modelu ym mis Tachwedd 2022[1].

Arweiniodd cynnydd pellach yn y cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill 2022 at gynnydd o bron i £700 y flwyddyn mewn biliau tanwydd dwbl domestig nodweddiadol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, roedd y cynnydd hwn yn golygu y gallai hyd at 45% o aelwydydd a hyd at 98% o aelwydydd incwm isel[2] yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd. Er bod y Gwarant Pris Ynni wedi lliniaru cynnydd pellach drwy gyfyngu'r cap i £2,500 hyd at fis Mehefin 2023 ar gyfer cartref arferol, mae hyn yn dal i fod yn cynrychioli dyblu yn y gost gyfartalog ers mis Ebrill 2021 ac mae pobl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd.

Mae'n bwysig cadw cartrefi'n gynnes yn y gaeaf. Mae pontio teg i ddulliau gwresogi carbon isel, gan sicrhau bod ein cartrefi'n effeithlon yn thermol ac o ran ynni, yn hanfodol os ydym am gyrraedd targedau sero net Cymru erbyn 2050. Mae effeithiau cynhesu byd-eang yn cael eu teimlo'n awr. Yn yr haf ddiwethaf, gwelwyd y tymereddau haf uchaf erioed yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae hyn yn debygol o waethygu, felly mae angen i gartrefi fod yn effeithlon o ran ynni er mwyn cadw'n gynnes yn y gaeaf, ac yn oer yn yr haf.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd ar 22 Rhagfyr 2021[3]. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gan y Llywodraeth[4] i gyd-fynd â dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Ebrill 2022.

Y brif neges a glywsom yn ystod yr ymarfer ymgynghori hwn oedd bod angen i'n cartrefi gael eu haddasu i ddarparu lleoedd diogel o safon foddhaol i bobl fyw, a sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll yr heriau sydd o'n blaenau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad cyhoeddus a chanlyniadau'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd gennym. Mae hefyd

[1] Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru: ym mis Hydref 2021
[2] Diffinnir aelwyd isel ei hincwm fel aelwyd sydd ag incwm is na 60% canolrif incwm aelwydydd y DU heb gynnwys costau tai. Households Below Average Income (HBAI) statistics (UK Government).
[3] Cynigion ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd | LLYW.CYMRU

[4] Datganiad Ysgrifenedig: Iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd (22 Rhagfyr 2021) | LLYW.CYMRU

yn cynnwys ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'r dystiolaeth a ddarparwyd, a fydd yn cefnogi datblygu polisi a deddfwriaeth a dylunio dulliau cyflenwi newydd yn y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd.

# Allbynnau'r Ymgynghoriad

## Gweithdai rhithwir

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd tri gweithdy rhithwir i randdeiliaid ar 28 Chwefror ac 1 a 3 Mawrth. Roedd y gweithdai'n cynnwys cyflwyniadau agoriadol gan Lywodraeth Cymru a National Energy Action, ac wedyn sesiynau grŵp thematig i ddilyn. Roedd y gweithdy a gynhaliwyd ar 3 Mawrth yn canolbwyntio ar faterion effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Daeth cyfanswm o 103 o gynrychiolwyr allanol i'r gweithdai o bob rhan o'r sector:

Llywodraeth Lleol: 24
Cymdeithasau Tai: 7
Y trydydd sector: 43
Academia: 1
Diwydiant: 23
Sectorau eraill: 5

### Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 28 Chwefror

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn ei bod yn bwysig nad yw meini prawf cymhwystra yn rhy anhyblyg. Rhaid i bobl sydd mewn angen allu cael cymorth. Mae angen i aelwydydd cymwys, gan gynnwys aelwydydd sydd wedi'u cofrestru at ddiben busnes ond nad ydynt yn safleoedd masnachol, fod yn ymwybodol bod cymorth ar gael ac efallai y bydd angen eu cefnogi drwy'r broses.

Trafodwyd yr egwyddor o gefnogi aelwydydd ar sail y gwaethaf yn gyntaf. Awgrymodd y cynrychiolwyr fod angen eglurder o ran sut y dylid diffinio'r egwyddor hon. Dywedwyd na ddylai pobl â phroblemau iechyd meddwl gael eu hanwybyddu wrth ddatblygu'r rhaglen newydd. Roedd y cynrychiolwyr hefyd yn cefnogi’r egwyddor adeiladwaith yn gyntaf o atgyweirio ac addasu’r hyn sydd yno’n barod yn hytrach nac ychwanegu ffitiadau newydd wrth ôl-osod tai.

Yn fwy na dim, roedd cynrychiolwyr yn teimlo y dylid targedu fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd at bobl mewn tlodi tanwydd, gan gyfrannu at nodau datgarboneiddio ar yr un pryd.

Yn gyffredinol, roedd y cynrychiolwyr yn fodlon â'r ystod o fesurau sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Roedd llawer yn teimlo y dylid ychwanegu drysau a ffenestri newydd at y mesurau sydd ar gael, gan bwysleisio y gallai budd mesurau effeithlonrwydd ynni cartref newydd gael ei golli os yw ffenestri a drysau'n gollwng. Awgrymodd y cynrychiolwyr bod cynnwys pympiau gwres yn bwysig, ond bod angen addysg a chymorth i sicrhau bod deiliaid tai yn deall y systemau a sut i fyw gyda nhw.

Awgrymwyd gwresogi lleol fel mesur posibl hefyd. Roedd yna gonsensws mai mesurau ac argymhellion yn seiliedig ar Asesiad Tŷ Cyfan oedd orau i'r cartref a'r deiliad tŷ.

Roedd yna gonsensws hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth bennu sut beth yw llwyddiant, megis yr effaith ar ddeiliaid tai ac a ydynt wedi dod allan o dlodi tanwydd. Trafododd y cynrychiolwyr hefyd y dylai targedau gynnwys gwelliannau perfformiad i'r dystysgrif perfformiad ynni (EPC).

Trafodwyd rhai o'r cymhlethdodau o ran darparu cynlluniau. Mae gormod o asiantau yn wynebu risg o gynyddu costau gweinyddu, ond gallai un asiant cenedlaethol golli cysylltiadau cymunedol sydd mor bwysig ar gyfer cyflawni a sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Roedd y cynrychiolwyr yn cefnogi'r angen am brosiectau ardal o fewn y rhaglen nesaf.

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod y capiau gwariant presennol yn rhy isel a chyfyngol i gyflawni ôl-osod effeithiol ac y dylid caniatáu sawl cais o dan y rhaglen nesaf.

## Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 1 Mawrth

Roedd y cynrychiolwyr yn cefnogi dull y gwaethaf yn gyntaf. Roedd yna bryder nad oes digon o bwyslais ar gartrefi sydd oddi ar y grid nwy. Roedd cefnogaeth gyffredinol i symud i ffwrdd o'r orddibyniaeth ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd i ddiffinio cymhwystra ar gyfer incwm aelwydydd a chytunodd y cynrychiolwyr fod angen i gartrefi yn y sector rhentu preifat gael eu cadw yn y cymhwystra ar gyfer y rhaglen nesaf.

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod angen i'r berthynas gymhwystra rhwng y Rhaglen Cartrefi Clyd a chynlluniau llywodraeth y DU, megis y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, ategu ei gilydd.

Roedd cefnogaeth i'r dull adeiladwaith yn gyntaf. Cwestiynodd y cynrychiolwyr ai gosod boeleri nwy yw'r mesur cywir o ystyried ein bod yn cael trafferth gyda gostyngiadau carbon yn y sector tai wrth geisio ymateb i'r her newid hinsawdd. Cytunwyd y dylai boeleri nwy gael eu trwsio yn hytrach na bod boeleri nwy newydd yn cael eu gosod. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod angen lleihau gofynion gwres yr aelwyd i lefel benodol cyn i bwmp gwres, neu dechnolegau gwresogi carbon isel, ddod yn ateb hyfyw.

Roedd yna gonsensws y bydd angen i lawer mwy o gyllid fod ar gael os ydym yn mynd i leihau tlodi tanwydd a chyrraedd targedau datgarboneiddio.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddull ardal gan ei fod yn cefnogi datgarboneiddio, os nad tlodi tanwydd. Ac er gwaethaf rhai o'r materion a brofwyd o dan Arbed 3, ni ddylai Llywodraeth Cymru gefnu o reidrwydd ar y dull ardal o ran ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Roedd y cynrychiolwyr yn teimlo bod manteision o ran prynu strategol a chael deiliaid tai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan i fod yn rhan o'r broses.

Nododd y cynrychiolwyr fod teirgwaith cymaint o bobl yn cael cyngor o gymharu â'r nifer o aelwydydd sy'n derbyn mesurau drwy'r rhaglen bresennol. Roeddent yn teimlo y gallai'r gwasanaeth cynghori fod yn fwy gweladwy i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fecanweithiau cymorth sydd ar gael i ddeiliaid tai.

### Crynodeb o drafodaethau'r gweithdy: 3 Mawrth – ffocws ar dai gwledig

Roedd yna gonsensws bod angen blaenoriaethu cartrefi sydd oddi ar y grid nwy yn fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Trafododd y cynrychiolwyr sut mae aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd mewn ardaloedd oddi ar y grid yn cael anawsterau o ran hygyrchedd a phrydlondeb gwasanaethau cludo tanwydd a'r ffaith ei bod yn debygol y bydd llawer angen mwy o fuddsoddiad nag a roddir i aelwydydd sydd ar y grid i bontio i systemau gwresogi carbon isel.

Roedd cefnogaeth eang hefyd ar gyfer dull adeiladwaith yn gyntaf o ran ôl-osod, gan ddechrau gyda'r gwaethaf. Er y cydnabuwyd fod pontio teg i wresogi carbon isel yn bwysig, roedd rhai yn teimlo y gallai gwaharddiad ar foeleri olew a nwy fod yn broblem i rai cartrefi lle nad yw pympiau gwres ffynhonnell aer yn ateb hyfyw. Awgrymodd y cynrychiolwyr nad yw pob rhan o Gymru'n addas ar gyfer rhai o'r mesurau y gellir eu hargymell.

Nodwyd pwysigrwydd addysg a chymorth i ddeiliaid tai, er enghraifft, wrth fynd drwy'r prosesau ymgeisio ac apelio, wrth ddefnyddio technolegau newydd, yn ogystal â pheryglon hunan-ddatgysylltu a hunan-ddogni.

Mynegodd y cynrychiolwyr rywfaint o bryder am y bygythiad i denantiaethau pe gofynnir i landlordiaid y sector rhentu preifat wneud mwy i wella eu heffeithlonrwydd ynni domestig er mwyn arbed arian i denantiaid ar eu biliau ynni.

Er eu bod yn gefnogol i gynnwys trothwy incwm isel, pwysleisiodd y cynrychiolwyr yr angen i ystyried yn ofalus unrhyw drothwy ar gyfer cynilion aelwydydd.


Bu'r cynrychiolwyr yn trafod cynnwys drysau a ffenestri newydd, ynghyd â gwaith galluogi ar raddfa fach. Roedd y drafodaeth yn cynnwys faint o aelwydydd incwm isel sy'n ei chael hi'n anodd cadw gwydnwch yr eiddo fel y'i dyluniwyd i ddechrau, felly a ddylai fod mwy o gefnogaeth i gynnal safonau effeithlonrwydd ynni presennol.

Roedd cefnogaeth eang i gynllun ardal yn y rhaglen. Ystyriwyd mai prynu strategol a manteision gweithio ar nifer o gartrefi yn yr un ardal ddaearyddol ar yr un pryd oedd y manteision allweddol, hefyd o ran yr ymgysylltu a all ddod yn sgil hynny, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol.

Yn olaf, roedd y cynrychiolwyr yn teimlo y byddai rheoliadau newydd yn ymrwymo llywodraethau'r dyfodol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni domestig.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar-lein ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd ar 22 Rhagfyr 2021 a daeth i ben ar 1 Ebrill 2022. Derbyniwyd 67 o ymatebion ysgrifenedig erbyn diwedd yr ymgynghoriad, fel y nodir isod.




## Beth ddywedodd pobl wrthym

Caniatawyd i'r ymatebwyr ateb mewn fformat agored ac yna, at ddiben dadansoddi, cawsant eu grwpio mewn categorïau. Ar gyfer unrhyw ystadegau a adroddir yma, gall un ymatebwr gael ei gyfrif mewn mwy nag un categori, felly efallai na fydd canrannau'n adio i fyny i 100%.

Tra bod lefel a chynnwys yr ymatebion hyn yn cynnig llawer o wybodaeth ac yn ddefnyddiol, bydd ffactorau eraill yn cael eu hystyried wrth ddatblygu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 1 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gydbwyso'r angen i leddfu tlodi tanwydd a chreu cenedl sy'n gyfiawn yn gymdeithasol â'r angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, neu a ddylai un o'r amcanion hyn gael blaenoriaeth yn y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd?"**

Cafwyd 57 o ymatebion, gyda 68% (39) ohonynt yn cytuno mai cydbwysedd fyddai orau. Roedd 32% (18) o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i un o'r amcanion; o'r rhain, dywedodd 83% (15) mai tlodi tanwydd ddylai fod prif bryder y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Mae'r sylwadau gan y rhai sy'n cytuno mai cydbwysedd sydd orau yn cynnwys teimladau bod cysylltiad rhwng tlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd, ac y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael mwy o effaith ar y rhai sydd dan anfantais neu mewn tlodi. Roedd teimlad hefyd na ddylai unrhyw gydbwysedd roi pobl mewn tlodi tanwydd, a bod rhaid i'r newid i sero net fod yn deg.

Mae'r sylwadau gan y rhai nad oeddent yn cytuno i gydbwysedd yn cynnwys y prif deimlad bod nodau newid hinsawdd yn rhai tymor hwy, ond bod tlodi tanwydd yn broblem nawr, a'i bod yn gwaethygu, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i helpu'r rhai mewn angen nawr.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae ein hymrwymiad i sicrhau Cymru sero net erbyn 2050 yn golygu bod angen i'r Rhaglen Cartrefi Clyd wneud mwy o gyfraniad at ddatgarboneiddio tai yng Nghymru yn y dyfodol. Hefyd, mae Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2, yn ein hymrwymo i ddull cynaliadwy o bontio teg a chyfiawn i gymdeithas garbon isel. https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25. Cefnogir hyn trwy ddatgarboneiddio cynhyrchu a chyflenwi trydan drwy'r grid cenedlaethol, ond rhaid iddo gynnwys datgarboneiddio gwres domestig a gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi.

Bydd angen i'r rhaglen newydd gydnabod bod cyflawni uchelgeisiau sero net a thlodi tanwydd Llywodraeth Cymru yn amcanion cydnaws. Gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi, gan sicrhau ein bod ddim ond yn defnyddio'r ynni sydd ei angen arnom i greu cartrefi diogel a fforddiadwy, yw ein huchelgais tymor hir.

**Cwestiwn 2 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw'r bwlch yn y ddarpariaeth y credwch y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf ei lenwi er mwyn sicrhau mwy o fudd i Gymru?"**

O'r 53 o ymatebion a gafwyd, y bwlch y soniwyd amdano fwyaf yn y ddarpariaeth i'w lenwi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf oedd cymhwystra ehangach, gyda 34% (18) o ymatebion yn sôn am hyn. Soniodd 25% (13) am y dull adeiladwaith yn gyntaf, neu insiwleiddio neu wella ffenestri neu ddrysau. Ymateb cryf arall, gan 19% (10) o ymatebion, oedd ymgymryd â'r holl fesurau sydd eu hangen i ddod â phob eiddo i'r safon gywir. Soniodd 17% (9) am addysgu aelwydydd ynglŷn â chostau a manteision mesurau. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys targedu eiddo oddi ar y grid nwy, gwyrddio'r stoc bresennol, monitro ac adolygu cynnydd, sicrhau gosodiadau o safon uchel a defnyddio gosodwyr a chadwyni cyflenwi lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Gall pob aelwyd yng Nghymru, nid dim ond y rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd, gael cyngor a chymorth ar y ffordd orau i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, a sut y gellir ariannu gosod y mesurau hyn. Mae'r gwasanaeth cynghori presennol sy'n darparu'r cymorth hwn ar gael i bob aelwyd, waeth beth yw ei ddeiliadaeth a'i incwm.

Mae sefydlu set o feini prawf cymhwystra a all nodi'r rhai mwyaf anghenus drwy broses briodol, syml a thryloyw yn heriol yn ei hanfod. Mae'r cynllun presennol yn defnyddio budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a Sgôr Perfformiad Ynni o E neu waeth yn bennaf i gymryd lle prawf cymhwystra oherwydd ei fod yn syml i ymgeiswyr a Llywodraeth Cymru ei weinyddu. Gallai opsiynau eraill i'w hystyried gynnwys trothwy is

ar gyfer incwm a chynilion, ond byddai'r rhain yn cynyddu'r gofynion ar ddeiliaid tai yn y cam ymgeisio.

Mae dadansoddiad pellach o feini prawf cymhwystra posibl, y mesurau sydd ar gael a'r broses o flaenoriaethu a dilyniannu ymyriadau yn cael eu hystyried mewn cwestiynau diweddarach.

**Cwestiwn 3 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Yn 'Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod', amcangyfrifodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fuddsoddiad o £14.75 biliwn dros y degawd nesaf i ddileu tlodi tanwydd a chyflawni ein huchelgeisiau sero net. Pa awgrymiadau sydd gennych chi o ble y dylai'r cyllid ar gyfer y lefel hon o fuddsoddiad ddod?**

Cafwyd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Credai'r gyfran uchaf, 33% (13), mai Llywodraeth Cymru ddylai ariannu hyn. Roedd 28% (11) yn credu y dylai'r cyllid ddod gan lywodraeth y DU. Roedd newidiadau treth yn boblogaidd, gyda 15% (6) yn dewis hyn mewn rhyw ffurf, ac yna ECO (13%) a chynghorau lleol (11%). Dewisodd 8% dariffau gwyrdd, ac roedd atebion eraill yn cynnwys benthyciadau banc datblygu/gwyrdd, y gyllideb iechyd a chosbau i landlordiaid (5% yr un).

O'r rhai a ddewisodd newidiadau treth, yr opsiynau a roddwyd oedd: tariffau gwyrdd, cosbau i landlordiaid, treth ffawdelw ar gwmnïau ynni, gostyngiad yn y TAW ar gydrannau i ddatgarboneiddio stoc tai, newidiadau treth stamp ac ardoll ar incwm y gellir ei wario.

**Ymateb y Llywodraeth**

Nododd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fod angen buddsoddiad gan y llywodraeth o £5.3 biliwn dros 10 mlynedd, gyda £3.6 biliwn yn dod gan lywodraeth y DU ac £1.7 biliwn gan Lywodraeth Cymru (£732 miliwn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a grant datgarboneiddio tai cymdeithasol newydd gwerth £1 biliwn).

Mae'r lefel hon o gyllid y tu hwnt i raddfa ac amserlen y cylch cyllideb presennol a bydd angen dull cydweithredol arno. Roedd hyn yn cael ei gydnabod gan y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Mae'n bwysig bod cyllideb bresennol Llywodraeth Cymru yn cael ei dyrannu i gyflawni gwelliant parhaol ym mywydau'r rhai mwyaf anghenus a'n bod yn gweithio i ddarparu mecanweithiau effeithiol ac effeithlon i gysoni buddsoddiad preifat a chyhoeddus. Bydd setliadau cyllideb yn y dyfodol yn gyfle i gael cyllid ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno tariff cymdeithasol, i gynyddu'r lwfans Cartrefi Clyd ac i gael gwared ar elfen polisi amgylcheddol a chymdeithasol biliau, er mwyn talu costau trawsnewid y system ynni drwy drethiant cyffredinol. Ar yr un pryd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i fanteisio'n llawn ar y cyfle am weithgarwch ariannu yng Nghymru, er enghraifft, drwy'r Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO). O ystyried y gyllideb o £4 biliwn ar gyfer ECO4, dros bedair blynedd, mae cyfle sylweddol i aelwydydd yng Nghymru elwa. Mae hyd at 50% o'r gyllideb hon ar gael i'w defnyddio o dan elfen ECO Flex y cynllun, felly mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ledled Cymru i

ddatblygu'r mecanwaith a'r broses orau bosibl ar gyfer sicrhau'r ymgysylltiad gorau posibl ag ECO.

**Cwestiwn 4 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn brif ffocws y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf?"**

Cafwyd 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 45% (23) yn credu mai'r rhai mewn tlodi tanwydd ddylai fod prif ffocws y Rhaglen Cartrefi clyd nesaf, ac roedd 29% (15) o'r farn mai'r rhai ar fudd-daliadau neu'r rhai ar incwm isel ddylai fod y prif ffocws.

Y gyfran uchaf nesaf o ymatebion oedd i'r prif ffocws fod ar gartrefi sydd â graddau EPC gwael, gyda 22% (11) o'r ymatebwyr yn sôn am hyn. Roedd 12% (6) o'r farn y dylai pawb fod yn brif ffocws, ac roedd 12% (6) yn credu y dylai'r ffocws fod ar y rhai sydd â chyflwr hirdymor.

Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer y prif ffocws a gafodd fwy nag un ymateb yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig oddi ar y grid (6%), pobl hŷn (6%), buddiolwyr sydd wedi cael prawf modd (4%), aelwydydd meddiannaeth unigol (4%), a chwmnïau datblygu (4%).

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn glir yr ymatebwyr y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd ganolbwyntio ei buddsoddiad ar aelwydydd sydd â'r gallu lleiaf i dalu, yn y tai lleiaf effeithlon o ran ynni, yn y sectorau perchen-feddianwyr, rhentu preifat a chydweithrediaethau tai.

**Cwestiwn 5 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Ar ba lefel y dylid gosod trothwy(on) incwm a chynilion aelwydydd, y byddai aelwydydd drosto/drostynt yn cael eu heithrio rhag mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gyflenwir heb unrhyw gost i ddeiliad y tŷ?"**

Cafwyd 38 o ymatebion, gyda 4 ohonynt ddim yn ateb y cwestiwn.

O'r rhai na atebodd y cwestiwn, roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys nad oeddent yn gwybod faint o arian oedd ar gael, ac awgrymwyd cyfrifiad fforddiadwyedd yn seiliedig ar incwm a chynilion yn hytrach na throthwy.

Dywedodd 8% (3) na ddylai fod unrhyw drothwy. Roedd 8% (3) yn teimlo na ddylid cynnwys terfynau cynilion ar gyfer pobl hŷn na'r rhai ar fudd-daliadau. Roedd 5% (2) yn teimlo y dylai'r trothwy incwm fod yn seiliedig ar fforddiadwyedd bil tanwydd.

Dim ond 24% (9) a roddodd drothwy incwm a rhoddodd 13% (5) drothwy cynilion.

Dewisodd 8% (3) £30,000 fel trothwy incwm, a dewisodd 5% (2) £40,000. Y gwerthoedd eraill a roddwyd ar gyfer trothwy incwm oedd £20,000, £32,000, £50,000, a £100,000 - pob un wedi'i ddewis gan un ymatebwr.

Teimlad cyffredinol y rhai a roddodd drothwy incwm oedd y dylid bod yn gyson gyda ffigur Llywodraeth Cymru o £20,000 ac y dylai unrhyw gyfraniadau gan ddeiliaid tai fod yn seiliedig ar gost gyffredinol ôl-osod ac oedran yr eiddo. Y pum trothwy a roddwyd ar gyfer cynilion oedd £5,000, £15,000, £16,000, £20,000, a £200,000.

Teimlad cyffredinol y rhai a roddodd drothwy cynilion oedd y dylai'r terfyn cynilion fod yn uwch ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol gan fod angen iddynt fyw ar yr arian hwnnw ac na ddylid caniatáu i gynilion ddisgyn o dan £8,000 (digon ar gyfer angladd neu glustog o ddiffyg incwm).

Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw drothwy, ond gwnaethant leisio amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys:

- Atal cymorth os oes mwy nag un ystafell sbâr.
- Eithrio'r bobl fwyaf cyfoethog yn unig, i gwmpasu cymaint o ddeiliaid tai â phosibl.
- Dylai fod rhyddhad graddedig yn seiliedig ar incwm gwario, a allai gyd-fynd o bosib ag Incwm Cymhwystra Iechyd
- Dylai'r rhai sydd ar fudd-daliadau neu sy'n derbyn cyflog byw, neu lai na hynny, gael y costau wedi'u talu'n llawn.
- Dylai'r rhai sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, budd-dal anabledd neu sydd dros 75 oed gael eu heithrio o derfyn cynilion
- Dylai awdurdodau lleol osod trothwyon incwm (e.e. enillion blynyddol aelwyd sy'n llai na 60% o incwm canolrifol aelwydydd ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw)
- Dylai'r cyfrifiad cymhwystra gynnwys biliau cartref cyfartalog x 10, er mwyn cynnwys y rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd.
- Dylai unrhyw gap ar gynilion olrhain chwyddiant.

**Ymateb y Llywodraeth**

Er bod awgrymiadau ar gyfer trothwy(on) incwm a chynilion wedi'u darparu, mae'r lefelau arfaethedig yn amrywiol. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu'r farn bod y system bresennol yn syml ond yn anhyblyg, ac nad ydyw'n gynrychiadol o'r myrdd o newidynnau sy'n bodoli. Y consensws gan y rhai a ymatebodd yw y dylai unrhyw drothwyon fod yn seiliedig ar fforddiadwyedd aelwydydd a chost gyffredinol ôl-osod, ac felly amrywio yn unol â'r amgylchiadau unigol.

Bydd angen i'r rhaglen newydd ystyried gallu ei chynlluniau i ganolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus, a'u cyrraedd, a gallu blaenoriaethu ymyrraeth i'w cefnogi. Bydd angen i'r blaenoriaethu hwn gael ei gymhwyso i gyllideb gyffredinol y rhaglen hefyd oherwydd wrth i gymhwystra a throthwyon godi bydd cynnydd yn y pwysau ariannol sydd ar gyllideb gyfyngedig.

**Cwestiwn 6 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “A ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Cartrefi Clyd i gynnwys aelwydydd eraill yn y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat?”**

O'r 53 o ymatebion, atebodd 85% (45) dylai, atebodd 11% (6) na ddylai, ac ni roddodd 4% (2) unrhyw ateb pendant.

Y teimlad gan y rhai a atebodd yn gadarnhaol oedd y gall perchen-feddianwyr fod yn gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian parod (pobl hŷn yn aml), ac y gall tenantiaid rhentu preifat fod â biliau uchel ac insiwleiddio gwael. Mynegwyd safbwyntiau croes am agor y cynllun i eiddo sydd â sgôr D o ran EPC. Byddai angen i’r cynllun barhau i fod yn fforddiadwy. Soniwyd am y posibilrwydd o ofyn am gyfraniadau gan rai aelwydydd.

Y teimlad gan y rhai a ddywedodd na oedd y byddai angen treth benodol i ganolbwyntio ar yr aelwydydd eraill hyn. Roedd ymatebion eraill yn dangos yr angen i ystyried sut y bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd yn ategu cynlluniau grant eraill ac yn atal gorgyffwrdd.

**Ymateb y Llywodraeth**

Er bod ymatebwyr ar y cyfan eisiau rhoi cyfle i ymestyn cymorth i gynnwys aelwydydd eraill o'r sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat, roedd hyn yn seiliedig ar y disgwyliad y byddai'n mynd i'r afael â materion tlodi tanwydd a fforddiadwyedd. Os caiff y rhaglen ei hymestyn, mae Llywodraeth Cymru yn tueddu i gytuno â'r ymatebwyr, a oedd yn gyffredinol yn teimlo y dylai'r rhai sy'n gallu talu gyfrannu at y costau.

Byddwn yn ystyried trothwy incwm is ar gyfer y rhaglen newydd, yn hytrach na budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer eiddo o fand EPC E ac is. Bydd unigolion sydd â chyflwr iechyd cydnabyddedig (fel cyflwr anadlol cronig, cylchrediad y gwaed neu gyflwr iechyd meddwl) sy'n byw mewn cartref ag EPC o D hefyd yn gymwys. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallai dull ardal a'r gallu i dalu perchnogion tai gael eu hymgorffori ym mecanweithiau cymorth ehangach y llywodraeth, nawr ac yn y tymor hwy.

**Cwestiwn 7 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “[Pe bai'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei hymestyn i gynnwys aelwydydd eraill,] a oes gennych farn ar sut y gellid ariannu hyn?”**

Cafwyd 44 o ymatebion cadarnhaol i Gwestiwn 6; o'r rhain, ymatebodd 52% (23) i'r cwestiwn hwn.

O'r 23 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 30% (7) o'r farn y dylai Llywodraeth y DU ariannu estyniad i'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Roedd cyfran gyfartal o 13% (3) o'r farn y dylai naill ai fenthyciadau/grantiau sydd ynghlwm wrth yr eiddo, cynghorau lleol neu Lywodraeth Cymru ariannu estyniad i gynnwys aelwydydd eraill. Roedd 9% (2) yn credu y dylai naill ai perchennog/landlord yr eiddo neu ECO ddarparu cyllid.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cyllid o'r canlynol: cynllun talu wrth i chi arbed, cwmnïau ynni, y gronfa Ffyniant Bro, y gronfa Ffyniant Gyffredin, cronfeydd Cymdeithasau Tai, cosbau am dorri rheoliadau, treth incwm ar enillwyr uchel, biliau tanwydd cartref, newidiadau treth stamp, cyllidebau arbed ynni/hinsawdd ac elusennau lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Fel llawer o'r ymatebwyr, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth ymestyn y cymorth a ddarperir gan y rhaglen. Rydym yn cytuno na all holl gost y camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a datgarboneiddio gael ei dalu gan Lywodraeth Cymru yn unig, a bydd angen cyfrifoldeb ariannol a chyfraniadau gan eraill. Mae rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd i alluogi hyn wedi'u nodi yn yr ymateb i Gwestiwn 3.

**Cwestiwn 8 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Os yw aelwydydd eraill wedi'u cynnwys yn y cymhwystra i gael cymorth drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddylid blaenoriaethu cefnogaeth, er enghraifft yn gyfyngedig i gartrefi sydd â sgôr EPC is fel sgôr EPC o D neu waeth?"**

Cafwyd 45 o ymatebion, gydag 87% (39) o'r rhain yn cytuno y dylid blaenoriaethu cymorth. Roedd 9% (4) yn anghytuno, ac roedd 4% (2) o bosibl yn cytuno.

O'r 39 a oedd yn cytuno y dylid blaenoriaethu cymorth, awgrymodd 90% (35) y dylai'r blaenoriaethu fod yn seiliedig ar EPC. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhai mewn tlodi tanwydd (13%), pobl agored i niwed (13%), pobl ar incwm isel (8%), eiddo nad oes ganddynt sgôr EPC (8%) a'r rhai sydd angen y gwelliant mwyaf (8%).

**Ymateb y Llywodraeth**

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen am flaenoriaethu, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod sgôr EPC yn fecanwaith priodol ar gyfer gwneud hynny, gan gydnabod ar yr un pryd y gallai fod angen rhoi cyfrif am ffactorau eraill.

Byddwn yn ystyried hyn wrth ystyried mynediad at gymorth a blaenoriaethu yn y dyfodol i sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn cael eu cyrraedd, yn unol â lefel y cyllid sydd ar gael.

**Cwestiwn 9 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw'r ffyrdd y gellir helpu aelwydydd incwm isel i wneud yn iawn am gost biliau ynni uwch yn y tymor byr os yw mesurau gwresogi carbon isel, wrth eu gosod, yn cynyddu biliau?**

Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Insiwleiddio fel cam cyntaf oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd, gyda 33% (16) o ymatebion. Awgrymodd 22% (11) y canlynol: peidio â chynnwys unrhyw fesurau a fyddai'n cynyddu costau yn y Rhaglen Cartrefi Clyd; a rhoi cyngor i aelwydydd ar sut i reoli eu hynni cartref yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Awgrymwyd paneli solar gan 10% (5), ac awgrymodd 6% (3) un o'r canlynol: pympiau gwres; storio mewn batris; a grantiau. Roedd awgrymiadau eraill â mwy nag un ymateb yn cynnwys: lleihau'r galw; mesurau effeithlonrwydd dŵr; credydau treth; help tymor byr gyda biliau; a chymhellion llywodraeth.

**Ymateb y Llywodraeth**

Roedd yr ymatebion yn glir ei bod yn well gwneud rhywbeth yn hytrach na gwneud dim, er enghraifft, drwy gael sawl ymweliad ag eiddo i gyflwyno mesurau'n raddol, ac awgrymodd nifer fach y dylai polisïau cyllidol gefnogi'r rhai sy'n wynebu costau uwch.

Mae'r cynllun presennol wedi'i gyfyngu i un cais gan bob aelwyd. Byddwn yn ailystyried hyn fel rhan o'r dull newydd fel y gall y broses o gyflwyno mesurau fod yn gysylltiedig ag asesiad tŷ cyfan a llwybr posib sy'n gallu cael ei roi ar waith dros amser. Mewn achosion lle nad yw newid i ffynhonnell wresogi carbon is yn ymarferol, efallai y bydd mesurau eraill yn cael eu hystyried. Bydd cyngor i ddeiliaid tai yn rhan o'r rhaglen newydd i helpu i gynyddu effeithlonrwydd ynni ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno technolegau mwy newydd.

**Cwestiwn 10 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ddylid cynnwys neu eithrio'r canlynol yn iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan ystyried arbedion carbon, tlodi tanwydd, materion ansawdd aer lleol a pharodrwydd y farchnad?"**

<u>Tabl 1 Mesurau effeithlonrwydd ynni cartref – tanwyddau a mesurau</u>

| Adeiladwaith yn gyntaf | Ie/Na | Rhowch fanylion am unrhyw amgylchiadau penodol? | Tystiolaeth i gefnogi eich safbwynt |
|---|---|---|---|
| Inswleiddio wal geudod | | | |
| Inswleiddio llofft | | | |
| Inswleiddio atodol | | | |
| Inswleiddio wal allanol | | | |
| Ffenestri newydd | | | |
| Drysau newydd | | | |
| Gwydr eilaidd ac atal drafftiau | | | |


| Systemau gwresogi - Tanwyddau | Ie/Na | Rhowch fanylion unrhyw amgylchiadau penodol? | Tystiolaeth i gefnogi'ch safiad |
|---|---|---|---|
| Nwy naturiol | | | |
| Nwy hylifedig | | | |
| Nwy bio | | | |
| Biomas | | | |
| Olew gwresogi | | | |
| Hydrogen | | | |
| Trydan | | | |
| Arall | | | |

| Mesurau Eraill | Ie/Na | Rhowch fanylion unrhyw amgylchiadau penodol? | Tystiolaeth i gefnogi'ch safiad |
|---|---|---|---|
| Storfeydd batri PV solar | | | |
| PV thermol | | | |
| Storfeydd thermol / gwres | | | |
| Gwres / ynni fel gwasanaeth | | | |
| Systemau cymunedol – Rhwydweithiau gwres | | | |
| Awyru ag adfer gwres | | | |
| Goleuadau ynni isel | | | |
| Mesurau arbed dŵr | | | |
| Arall | | | |

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion. Ni wnaeth rhai ymatebwyr ateb y cwestiwn yn gywir, gydag atebion yn cyd-fynd ag arbedion carbon, tlodi tanwydd, mesurau ansawdd aer lleol a pharodrwydd y farchnad – yn hytrach na'r mesurau yn y tabl dan sylw. Lle gellid canfod hynny, ni chafodd yr ymatebion hyn eu cynnwys.

Dewisodd 12 o ymatebwyr bob un o'r 22 mesur, dewisodd tri un mesur, ac ni ddewisodd tri unrhyw fesurau o gwbl.

Mae nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob mesur yn cael ei ddangos yn y siart isod, yn y drefn y cyflwynwyd y mesurau i'r ymatebwyr. Olew gwresogi a systemau cymunedol oedd y mesurau lleiaf poblogaidd.




**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r ymatebion hyn yn awgrymu nad oes un ateb syml nac un sy'n addas i bawb, a bod yr ystod bresennol o fesurau'n teimlo'n briodol. Er y gall fod cyfle i gysoni mesurau i

rai mathau penodol o dai yn y rhaglen newydd at ddiben hwylustod a symlrwydd, mae angen i ni barhau i gydnabod y gwahaniaethau mewn oedran, ansawdd yr adeiladwaith a chyflwr presennol yr eiddo. Dylai argaeledd a blaenoriaeth eu gosod fod yn adlewyrchiad o'r asesiad tŷ cyfan, y pasbort carbon a'u haddasrwydd i'r eiddo. Er nad yw'n cael ei gydnabod yn yr ymatebion, mae arloesedd parhaus o ran effeithlonrwydd ac argaeledd mesurau yn golygu bod rhaid i ni fod yn hyblyg ond yn gyson, er mwyn sicrhau tegwch ac eglurder i ddeiliaid tai. Byddwn yn ystyried ychwanegu ffenestri a drysau newydd yn y rhaglen newydd, er mai mewn sefyllfaoedd eithriadol y byddai hynny'n debygol o ddigwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon y cynrychiolwyr yn y gweithdai a gwestiynodd y penderfyniad i osod boeleri nwy pan rydym yn cael trafferth gyda gostyngiadau carbon mewn tai i fodloni'r her newid hinsawdd. Rydym hefyd yn cydnabod cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n nodi'r angen i leihau gofynion gwres eiddo i lefel benodol cyn i bwmp gwres, neu dechnolegau gwresogi carbon isel, ddod yn ateb hyfyw. Bydd y dull addasrwydd a phontio ar gyfer mesurau yn cael ei ystyried yn y rhaglen newydd.

**Cwestiwn 11 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw eich barn am barhau â chap ariannol fesul aelwyd, gan nodi y bydd cap is yn caniatáu i fwy o aelwydydd gael cefnogaeth, ond o werth is?"**

O'r 40 o ymatebion, roedd 58% (23) yn cytuno bod angen cap, nid oedd 43% (17) yn cytuno bod angen cap ariannol, a dywedodd 3% (1) y dylid talu costau'n llawn i'r rhai mewn tai cymdeithasol ac ar fudd-daliadau. Awgrymodd 30% (12) y dylai'r cap gynyddu, ac awgrymodd 23% (9) fod angen cap is neu y dylid cadw cap isel.

Roedd sylwadau gan y rhai oedd o'r farn fod angen cap yn cynnwys defnyddio cymysgedd o gyllid, benthyciadau, grantiau a chynilion i ariannu gwelliannau, dod o hyd i ffyrdd o gymell y rhai mwyaf cefnog i wneud eu gwelliannau eu hunain a chynyddu'r cap i £25,000 ar gyfer eiddo gwledig sydd ag EPC o F/G. Roedd rhai o'r farn y dylid diwygio'r cap yn seiliedig ar y mathau o fesurau a gynigir a sgôr EPC y cartref.

Roedd sylwadau gan y rhai nad oeddent yn cytuno â gosod cap ariannol yn cynnwys yr angen i osgoi canlyniadau anfwriadol mwy o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig lle gall gwaith fod yn ddrytach ac osgoi'r cap yn gweithredu fel rhwystr (os na all yr aelwyd dalu'r gwahaniaeth) neu fel esgus i beidio â gweithredu. Mynegodd yr ymatebwyr eu barn y dylai cymorth fod yn ddigonol i godi aelwydydd allan o dlodi tanwydd ac y dylid cwblhau dadansoddiad cost a budd manwl ar gyfer dod â phob eiddo i fyny i safon EPC penodol er mwyn cyfiawnhau diystyru'r cap os oes angen. Yn olaf, cyflwynwyd sylwadau a ddywedodd fod un ôl-osodiad dwfn yn lleihau aflonyddwch a'r costau sy'n gysylltiedig â sawl cysylltiad.

**Ymateb y Llywodraeth**

Fel yn achos y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol, bydd angen i'r rhaglen newydd ystyried pa fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n cael eu hargymell ar ôl cwblhau Asesiad Tŷ Cyfan,

yn seiliedig ar egwyddorion y gwaethaf yn gyntaf, adeiladwaith yn gyntaf a charbon isel yn gyntaf.

Gallai'r dull hwn, a oedd yn cael ei argymell yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, fynd i'r afael â'r canlyniadau anfwriadol sy'n deillio o osod terfynau gwariant yn rhy isel i sicrhau canlyniadau parhaus. Er mwyn sicrhau tegwch, bydd angen cydbwyso hyn â lefel addas o reolaeth i sicrhau bod cymorth yn cael ei flaenoriaethu a'i ddosbarthu'n gyfartal, yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

**Cwestiwn 12 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: “A oes gennych farn ar ganiatáu ceisiadau lluosog i bob aelwyd [dros oes y rhaglen]?”**

Cafwyd 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 74% (35) ohonynt yn cytuno y dylid caniatáu sawl cais i bob aelwyd, a 19% (9) o'r farn mai dim ond un cais y dylid ei ganiatáu i bob aelwyd. Atebodd 6% (3) 'na' - nid oes ffordd o wybod os ydynt yn golygu nad oes ganddynt farn, neu nad ydynt yn cytuno y dylid caniatáu sawl cais.

Mynegodd rhai ymatebwyr eu barn ar ba mor aml y dylid caniatáu sawl cais, gyda 9% (4) yn dweud unwaith bob deng mlynedd, a 6% (3) yn dweud unwaith bob 5 mlynedd.

Roedd sylwadau gan y rhai a oedd yn cytuno y dylid caniatáu sawl cais i bob aelwyd yn cynnwys bod amgylchiadau'n newid, ac y gall ceisio cyflwyno'r holl fesurau ar unwaith arwain at darfu ac anghyfleustra sylweddol. Dywedodd eraill y dylid ond caniatáu sawl cais i'r aelwydydd incwm isaf, neu i'r rhai mwyaf anghenus. Mynegodd sawl ymatebwr y teimlad bod angen map ffordd tymor hwy ar gyfer ôl-osod, ac y dylid caniatáu sawl cais sy'n cyd-fynd â'r map trywydd hyd nes cyrraedd y targed EPC.

Roedd sylwadau gan y rhai a oedd yn cytuno y dylid ond caniatáu un cais i bob aelwyd yn cynnwys y teimlad y dylai'r rhaglen geisio ei wneud yn iawn a'i wneud unwaith er mwyn sbarduno effeithiolrwydd costau (mae ceisiadau lluosog yn cynyddu costau asesu a rheoli, ac yn lleihau'r hyn y gellir ei wario ar fesurau).

**Ymateb y Llywodraeth**

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cydnabod ac yn cytuno â'r angen am sawl cais i bob aelwyd. Roedd hyn yn amodol ar y ffaith ei fod ar gael pan fo amgylchiadau'r aelwyd wedi newid, lle efallai na fyddai mesurau wedi bod ar gael neu'n briodol iddynt o'r blaen a'r risg y gallai'r mesurau achosi i aelwyd fynd i ddyled.

Fel yn achos y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol, bydd angen i'r rhaglen newydd ystyried a fydd mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu hargymell ar ôl cwblhau Asesiad Tŷ Cyfan, yn seiliedig ar egwyddorion y gwaethaf yn gyntaf, adeiladwaith yn gyntaf a charbon isel yn gyntaf. Byddai'r dull hwn, sy’n cael ei argymell yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, yn mynd i'r afael â'r canlyniadau anfwriadol sy'n deillio o ganiatáu un cais grant yn unig i bob aelwyd, a gosod terfynau gwariant yn rhy isel i sicrhau canlyniadau parhaus.  Bydd ceisiadau lluosog yn cael eu hystyried fel rhan o'n proses datblygu polisi.

### Cwestiwn 13 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Beth yw eich barn am y fethodoleg a'r targedau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?"

Cafwyd 40 o ymatebion, ac roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn rhy amrywiol i roi ystadegau ystyrlon.

**Ymateb y Llywodraeth**

Er bod yr atebion i'r ymgynghoriad yn amrywiol, roedd yna gonsensws o'r gweithdai bod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth bennu sut beth yw llwyddiant, megis yr effaith ar ddeiliaid tai ac a ydynt wedi dod allan o dlodi tanwydd.

Bydd y rhaglen newydd yn ystyried cynnwys targedau ac adroddiadau lleihau carbon blynyddol, mewn perthynas â'r aelwydydd unigol sy'n elwa ar y cymorth ac ar sail gronnus o fewn y rhaglen. Bydd angen i dargedau'r rhaglen hefyd ddangos yr effaith mae mesurau effeithlonrwydd ynni cartref wedi'i chael ar aelwydydd unigol mewn perthynas ag arbedion ar filiau a'r effaith gadarnhaol ar dlodi tanwydd.

## Cwestiwn 14 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ddylai iteriad nesaf y gwasanaethau cyngor ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni domestig yn unig?"

O'r 45 o ymatebion, atebodd 56% (25) na ddylai, atebodd 40% (18) y dylai, ac roedd 2% (1) yn ansicr.

Roedd teimladau'r rhai a atebodd y dylai yn cynnwys: byddai pob sector yn elwa ar gyngor gwell; dylai asiantaethau eraill yng Nghymru allu cyfeirio aelwydydd at y gwasanaeth cyngor ynni; dylid ehangu hyn er mwyn sicrhau bod aelwydydd yn defnyddio offer newydd yn effeithiol; a dylai fod gwasanaethau cyngor annibynnol yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau dylunio a gosod.

Roedd teimladau'r rhai a atebodd na ddylai yn cynnwys: dyma gyfle i weithio gyda phartneriaid; yr angen i ganolbwyntio ar ddefnydd o'r holl gyfleustodau; dylid cynnwys eiddo masnachol; ac a allai'r gwasanaethau cyngor hefyd gwmpasu iechyd a lles a/neu fod yn gysylltiedig â gwasanaethau cyngor eraill.

**Ymateb y Llywodraeth**

Roedd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cydnabod yr angen a manteision gwasanaeth effeithiol i ddeiliaid tai yng Nghymru o ran darparu cyngor i wella eu heffeithlonrwydd ynni cartref a'u cyfeirio at gynlluniau perthnasol eraill.

Rydym yn cydnabod o'r sylwadau hyn fod angen mecanwaith cymorth cydweithredol ac effeithlon ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill. Bydd angen i'r cymorth cydweithredol ac effeithlon hwn gwmpasu cyngor a roddir i ddeiliaid

tai a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni. Yn ddelfrydol, bydd yn rhan o 'siop un stop' ehangach o wasanaethau cyngor cysylltiedig ac integredig.

**Cwestiwn 15 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Sut y gallai gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cyngor eraill sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a mynd i'r afael â thlodi?**

Cafwyd 27 o ymatebion, gyda 19% (5) ohonynt yn ateb nad oeddent yn siŵr neu nad oeddent yn gwybod. Dim ond 7% (2) a atebodd na ddylai gwasanaethau cyngor gael eu hintegreiddio, gan sôn y byddai hyn yn arafu pethau. Cafodd rhai termau eu crybwyll gan fwy nag un ymatebwr – soniodd 11% (3) am y canlynol: Awdurdod Lleol, siop un stop, cyfannol, a'r sector annibynnol (e.e. Cyngor ar Bopeth). Soniodd 7% (2) am y Gronfa Gynghori Sengl (SAF).

**Ymateb y Llywodraeth**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 14, mae angen mecanweithiau cymorth cydweithredol ac effeithlon ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill. Dylai'r cymorth cydweithredol ac effeithlon hwn gwmpasu cyngor a roddir i ddeiliaid tai a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni.

**Cwestiwn 16 – Gofynnwyd i ymatebwyr rannu eu barn ar ddarparu gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni ac a ddylai'r rhain fod yn annibynnol ar sefydliadau a benodwyd i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i ddeiliaid tai?**

Cafwyd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 67% (28) yn cytuno y dylai cyngor gael ei roi gan rywun sy'n annibynnol ar sefydliadau sy'n cael eu penodi i sicrhau gwelliannau. Dywedodd 19% (8) bod rhaid ymddiried mewn cyngor, dywedodd 12% (5) y dylai'r cyngor gael ei roi gan sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau trydydd sector, ac roedd 7% (3) o'r farn y dylai cynghorwyr dderbyn hyfforddiant ar adeiladau a adeiladwyd cyn 1919. Ar y llaw arall, nid oedd 10% (4) yn poeni os oedd cyngor yn annibynnol ai peidio.

Roedd teimladau ynglŷn â sut y dylid cyflwyno cyngor yn cynnwys y dylai'r gwasanaethau cyngor gael eu rhedeg neu eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i roi tawelwch meddwl i bobl ac y dylent gael eu hariannu'n gyhoeddus i sicrhau annibyniaeth neu y byddai sefydliad fel Gofal a Thrwsio mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn ar gyfer pobl dros 70 oed.

**Ymateb y Llywodraeth**

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen am gyngor y gellir ymddiried ynddo a gosodiadau dibynadwy o safon uchel. Mecanwaith posibl i gyflawni a chynnal yr ansawdd hwn yw drwy wahanu dyletswyddau rhwng asiantau sy'n rhoi cyngor i ddeiliaid tai ac yn gosod y mesurau.

Gallai cyngor effeithlonrwydd ynni domestig a threfniadau sicrhau ansawdd gosodiadau, mewn egwyddor, gael eu contractio'n annibynnol ar yr asiant cyflenwi. Gallai'r annibyniaeth hon rhwng y cyngor ynni, gan gynnwys yr Asesiad Tŷ Cyfan a chreu'r pasbort effeithlonrwydd ynni cartref, a'r sefydliad sy'n gosod y mesurau, ymestyn i'r broses o wirio ar hap a sicrhau ansawdd yr asiantau gosod.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr awgrym a ddaeth o'r gweithdai ynghylch defnyddio sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau trydydd sector, gan gydnabod y gallai rhai sectorau o'r cyhoedd ymateb yn wahanol ac y bydd ganddynt anghenion gwahanol, er enghraifft, pobl hŷn.

**Cwestiwn 17 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Pa safonau y dylid eu defnyddio ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni?"**

Noder: roedd dryswch ynghylch y cwestiwn hwn o ran ystyr y gair safonau - marc ansawdd gwaith/gosodiad neu safon effeithlonrwydd ynni sydd angen eu bodloni.

Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 38% (18) o'r farn mai PAS ddylai fod y safon ofynnol. Roedd 10% (5) o'r farn mai MCS ddylai fod y safon ofynnol, ac roedd 10% (5) o'r farn y dylai'r safonau fod y 'safonau uchaf'. Soniodd 6% (3) am reoliadau adeiladu, ac roedd 6% (3) o'r farn y dylid defnyddio'r safonau uchaf rhwng EPC ac EIR. Dywedodd 4% (2) bob un o'r canlynol: EPC, isafswm o EPC C, a'r sector i gynghori. Dywedodd 4% (2) nad oeddent yn gwybod.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'n bwysig bod y safon ar gyfer gosod yn amddiffyn y defnyddiwr, er enghraifft, rhag mesurau sy'n hollol anaddas neu wedi'u cyflawni i safon isel, a'r fod yn rhoi gwarant neu atebolrwydd effeithiol i ddefnyddwyr.  Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn gweithio i'r safonau yn PAS 2030 (2017), ac mae wedi mabwysiadu rhai o'r dulliau egwyddorol yn PAS 2035. Roedd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cydnabod dull presennol Llywodraeth Cymru ac yn disgwyl iddo barhau yn y rhaglen newydd.

Mae safonau priodol yn bwysig er mwyn amddiffyn y defnyddiwr rhag mesurau gwael, ac mae gwarantau a gefnogir gan y diwydiant yn amddiffyn Llywodraeth Cymru rhag ariannu gwaith adferol ar gartrefi sydd wedi cael gwaith gosod gwael. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ddau fod yn rhan o'r rhaglen newydd.

**Cwestiwn 18 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "Sut gall y Rhaglen Cartrefi Clyd gefnogi datblygiad sgiliau a swyddi yn y sectorau carbon isel ac ôl-osod tai yn well?"**

Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd 7% (4) nad oes angen gwneud unrhyw beth, gan fod y capasiti yno'n barod neu oherwydd y dylai gael ei arwain gan fusnes.

Roedd hyfforddiant yn thema amlwg yn yr ymatebion - awgrymodd 30% (13) hyfforddiant technegol a ddarperir gan gyrsiau coleg, ac awgrymodd 28% (12) hyfforddiant seiliedig ar brentisiaeth. Awgrymodd 5% (2) bob un o'r canlynol: y gallai'r Rhaglen Cartrefi Clyd ysgogi'r farchnad i fuddsoddi mewn hyfforddiant, mae cyfle i bobl ddi-waith ailhyfforddi ar gyfer ynni gwyrdd, a gellid darparu cyllid i gefnogi gofynion hyfforddi. Awgrymodd 2% (1) bob un o'r canlynol: bŵt-camp sgiliau gwyrdd, darparu hyfforddiant ar roi cyngor, darparu hyfforddiant ar weithio'n dda gyda phobl hŷn neu blant, a gosod cymwysterau gofynnol ar gyfer gosodwyr.

Roedd cadw gwaith yn lleol, neu o fewn Cymru, yn thema arall yn yr ymatebion - awgrymodd 26% (11) y dylid defnyddio crefftwyr lleol i gyflawni'r gosodiadau, ac awgrymodd 19% y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd ddefnyddio cadwyn gyflenwi Gymreig.

Un thema arall oedd meithrin hyder fel y gall y sector fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu drwy sicrhau parhad yn y cyllid ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd - awgrymodd 9% (4) hyn.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys: defnyddio inswleiddio gwlân defaid Cymreig, creu cyfleoedd lleol mewn cymunedau sydd wedi'u dad-ddiwydiannu, dylai cyrsiau gynnwys cyngor ar sefydlu eich busnes eich hun, er mwyn dilyn y dull a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori, gall Awdurdodau Lleol integreiddio hyfforddiant os ydynt yn rheoli'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn fewnol, a dylai cynllun buddiannau economaidd eistedd ochr yn ochr â'r rhaglen.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae creu cartrefi teilwng yn cyfrannu at well canlyniadau iechyd a lles, a gall buddsoddi mewn ôl-osod tai hefyd gefnogi manteision ehangach megis ehangu'r gadwyn gyflenwi a chreu gweithlu medrus.

Mae'r hyn a ddysgwyd o gyflwyno'r rhaglen ddiwethaf a'r cyfyngiadau presennol yn y gadwyn gyflenwi a'r farchnad sgiliau yn awgrymu bod angen sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn cael ei defnyddio ar y cyfle cyntaf a bod amser priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgogi cynlluniau dan reolaeth.

Bydd y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net, yn nodi 36 o gamau gweithredu ar draws 7 maes allweddol i sicrhau bod gennym y sgiliau i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru decach, gryfach a gwyrddach. Bydd y rhaglen newydd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gefnogi datblygiad sgiliau a swyddi yn y sectorau carbon isel ac ôl-osod tai yng Nghymru.

**Cwestiwn 19 – Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: "A ydych chi'n credu bod angen nodi'r Rhaglen Cartrefi Clyd mewn Rheoliadau manwl, neu a ellir ei chefnogi'n syml gan ganllawiau cynllun a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru?"**

Cafwyd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 55% (23) o'r farn y byddai canllawiau'n ddigonol, tra bod 48% (20) o'r farn bod angen rheoliadau. Roedd 17% (7) o'r farn mai

cymysgedd o'r ddau, gyda rhai rhannau wedi'u rheoleiddio, fyddai orau. Roedd 7% (3) o'r farn nad oedd angen canllawiau na rheoliadau, ac roedd 7% (3) yn ansicr.

Roedd y rhai a ddewisodd ganllawiau yn nodi bod canllawiau'n caniatáu mwy o hyblygrwydd na rheoliadau a'u bod, yn gyffredinol, yn golygu llai o fiwrocratiaeth, felly gellir eu gweithredu'n gyflymach. Gallai nodi pa elfennau oedd yn ddewisol ac yn orfodol, a byddai'n dilyn y dull a ddefnyddiwyd gan Warm Homes Scotland.

Nododd y rhai a ddewisodd reoliadau fod rheoliadau'n dryloyw ac nad oes modd eu haddasu, felly maent yn helpu i sicrhau bod gwaith yn cyrraedd y safon ac yn galluogi atebolrwydd os yw pethau'n mynd o'i le. Roedd sylwadau eraill yn awgrymu y byddai angen canllawiau penodol ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a adeiladwyd mewn ffordd draddodiadol, a bod rheoliadau'n rhoi hyder ac yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o ffyniant a methiant yn y gadwyn gyflenwi.

Roedd y rhai a ddewisodd y ddau eisoes wedi nodi'r pwyntiau sy'n cael eu crybwyll uchod.

**Ymateb y Llywodraeth**

Er bod hollt yn yr ymatebion, roedd y neges i weld yn gyson; rhaid i unrhyw reoliadau sicrhau eglurder diben ac awdurdod i weithredu, gan roi'r hyblygrwydd i weithredu newidiadau i'r cynllun yn gyflym ac yn effeithlon heb orfod newid y rheoliadau. Dylid ategu'r hyblygrwydd hwn o ran dull gweithredu gyda nodiadau canllaw a nodiadau eraill sy'n cynnwys y gofynion manwl i sicrhau bod y canlyniadau cywir yn cael eu cyflawni drwy wasanaeth o ansawdd.

Bydd y penderfyniad ac, os yn briodol, cynnwys y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r datblygiad polisi i alluogi a llywio gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Mae angen canllawiau effeithiol, waeth beth yw'r sylfaen ddeddfwriaethol.

## Y camau nesaf

Mae'r safbwyntiau esblygol hyn yn seiliedig ar adolygiadau o'r rhaglen bresennol, gweithdai mewnol ac allanol, datblygiad tystiolaeth a dogfennau yn dilyn argymhellion y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ac Archwilio Cymru a Phwyllgor y Senedd. Bydd y safbwyntiau a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael eu hategu gan dystiolaeth bellach a'u cyflwyno mewn datganiad polisi a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y cynllun newydd.